



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

# Cylchlythyr Haf 2024 Summer Newsletter 2024



# Haf 2024

Croeso cynnes i gylchlythyr chwarterol Comisiynydd y Gymraeg. Gobeithio y byddwch yn mwynhau ei ddarllen ac mae croeso i chi ei rannu gyda chydweithwyr a chyfeillion.



## Mwynder Maldwyn

Cawsom wythnos hwyliog yn Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru ym Meifod ac roedd yn braf sgwrsio â chynifer o bobl yno.

Roedd yn gyfle hefyd i ni lansio ein sioe **Geiriau** yr ydym wedi ei datblygu ynghyd â chwmni **Mewn Cymeriad** er mwyn ei perfformio mewn ysgolion uwchradd ledled Cymru – mae'r ymateb wedi bod yn gadarnhaol iawn. Ar yr un pryd fe wnaethom gyhoeddi pecyn addysg arbennig wedi ei anelu yn bennaf at ddisgyblion uwchradd ym mlynnyddoedd 7-9.

Gellir cael gafael ar y pecyn drwy wefan Hwb neu mae croeso i chi gysylltu â ni.

Cofiwch y byddwn yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd am yr wythnos felly galwch i'n gweld.

Bydd amserlen yr wythnos yn cael ei chyhoeddi ar ein gwefan ac ar y cyfryngau cymdeithasol.

# Summer 2024

A warm welcome to the Welsh Language Commissioner's quarterly newsletter. We hope you enjoy reading it and feel free to share it with colleagues and friends.



## Maldwyn's warm welcome

We had a great week at Urdd Gobaith Cymru's National Eisteddfod in Meifod. It was lovely to chat with so many people there.

It was also an opportunity for us to launch our recently commissioned stage show, **Geiriau**, which we have developed with **Mewn Cymeriad** theatre company to perform in secondary schools across Wales – the response has been very positive. We also announced a special education resource aimed mainly at secondary school pupils in years 7-9.

The resource can be accessed via the Hwb website or please feel free to contact us.

During the first week of August, we will be at the National Eisteddfod in Pontypridd so pop by to see us.

Our timetable for the week will be on our website and social media channels.

## Y gwaith cyd-reoleiddio yn parhau

## Co-regulatory working put into practice

Yn gynt yn y flwyddyn fe wnaethom gyhoeddi y byddem yn mabwysiadu dull mwy [rhagweithiol o 'gyd-reoleiddio'](#). Wrth wneud y cyhoeddiad hwnnw, fe wnaethom hefyd nodi ein bwriad i ddatblygu a gosod deilliannau rheoleiddio clir yn ystod 2024, a gallwch ddarllen mwy am rheiny drwy ddilyn y ddolen [hon](#).

Ein gobaith o wneud hynny yw y byddent yn cynrychioli nodau ac amcanion cyffredin sefydliadau cyhoeddus. Rydym yn gobeithio hefyd y byddant yn cwrdd ag anghenion defnyddwyr y Gymraeg yn ogystal â ninnau fel Comisiynydd y Gymraeg, ac yn bwysicaf oll ein bod i gyd yn eu perchogni.

Rydym yn trefnu nifer o sesiynau trafod a digwyddiadau gwybodaeth ar gyfer y flwyddyn er mwyn rhoi arweiniad a chefnogaeth i sefydliadau wrth weithio tuag at wella cydymffurfiaeth.

Gallwch gael mwy o wybodaeth am y sesiynau yn [fan hyn](#) neu beth am ddod i'n digwyddiad yn yr Eisteddfod i glywed mwy – manylion isod.

Earlier in the year we announced that we would take a more proactive approach to [co-regulation](#). In making that announcement, we also set out our intention to develop and set clear regulatory outcomes during 2024, and you can read those by following this [link](#).

Our hope in doing so, is that they will represent the common aims and objectives of public organisations. We also hope that they will meet the needs of Welsh language users as well as ourselves as the Welsh Language Commissioner, and that we all take ownership of them.

We are organising several discussion sessions and information events throughout the year to provide guidance and support to organisations in working towards improving compliance.

You can find out more about these sessions [here](#) or why not come to our event at the Eisteddfod – details below.



# Cynhadledd ryngwladol

Anghofiwch am gyngherddau Pink a Taylor Swift – y digwyddiad pwysicaf i daro Caerdydd dros y misoedd diwethaf oedd cynhadledd Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr laith. Mae eleni yn flwyddyn bwysig iawn i'r Gymdeithas wrth iddi ddathlu ei degfed pen-blwydd a braf oedd medru gwneud hynny yng Nghymru gan mai Comisiynydd y Gymraeg sydd wedi bod â'r gadair dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

## O dan y teitl **Cofleidia dy laith**

**Iaith**, cafwyd cyfle dros dridiau i archwilio gwir effeithiau deddfu o blaid ieithoedd yng Nghymru a thu hwnt. Yn ogystal â sesiynau ymarferol yn rhannu profiad sefydliadau o Gymru cafwyd cyfraniadau gan siaradwyr rhyngwladol fel Raymond Théberge, Comisiynydd ieithoedd Swyddogol Canada, Dr Fernand de Varennes, Cyn-Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar faterion lleiafrifol a Chomisiynydd laith newydd Iwerddon, Séamas Ó Concheanainn.

Darlledwyd y gynhadledd yn fyw i bedwar ban byd a gallwch [fan hyn](#) wyllo darlleniad o gerdd arbennig Mererid Hopwood a gomisiynwyd ar gyfer y digwyddiad, sydd yn cloriannu yr awyrgylch a'r brwdfrydedd yn berffaith.

# International conference

Forget about Pink and Taylor Swift – the most important event to hit Cardiff in recent months was the International Association of Language Commissioners' conference.



This year is a very important year for the Association as it celebrates its tenth anniversary and it was great to be able to do so in Wales as the Welsh Language Commissioner has been the chair for the past two years.

## Entitled **Cofleidia dy laith**

(Live your Language), there was an opportunity over three days to explore the real effects of legislating in favour of languages in Wales and beyond. In addition to practical sessions sharing the experience of Welsh organisations, there were contributions from international speakers such as Raymond Théberge, Canada's Commissioner of Official Languages, Dr Fernand de Varennes, Former UN Special Rapporteur on minority issues and Ireland's new Language Commissioner, Séamas Ó Concheanainn.

The conference was broadcast live to viewers around the world, and you can watch a reading [here](#) of a special poem by Mererid Hopwood commissioned for the conference that sums up perfectly the joyous enthusiasm of the event.



# Technoleg a'r Gymraeg

Fel rhan o'n rhaglen hybu cydymffurfiaeth, rydym yn cynnal cynadleddau Technoleg, Gwasanaethau Digidol a'r Gymraeg.

Wrth i ni ofyn i sefydliadau sicrhau cydymffurfiaeth â'u dyletswyddau iaith mae angen i hynny ddigwydd law yn llaw gyda chynnig gwasanaethau cyfoes digidol o'r ansawdd gorau i'w defnyddwyr.



Bwriad y digwyddiadau yw dod â swyddogion sydd yn gyfrifol am wasanaethau a systemau digidol cyrff cyhoeddus at ei gilydd, er mwyn gwrando a deall yr hyn sydd yn her iddyn nhw wrth i dechnoleg, a'r modd y mae cyrff yn darparu gwasanaethau cyhoeddus, newid.

Rydym ninnau am wybod mwy am yr hyn sydd ei angen arnynt o ran cyngor ac arweiniad ac am roi cyfle i gyrrf rannu arfer da.

Cynhaliwyd y digwyddiad cyntaf ym Mae Colwyn ac mae'r nesaf yng Nghaerdydd ddiwedd Gorffennaf.

## Technology and the Welsh language


As part of our promoting compliance programme, we are hosting Technology, Digital Services and Welsh language conferences.

As we ask organisations to ensure compliance with their language duties, this needs to happen alongside offering the highest quality digital contemporary services to their users.

Technology, and the way organisations deliver public services, are continually changing. The events are designed to bring together officers responsible for public bodies' digital services and systems, to hear and understand any challenges they face.

We also want to know more about their needs in terms of advice and guidance and to give organisations the opportunity to share good practice.

We held our first event in Colwyn Bay and the next one will be in Cardiff at the end of July.





## Wythnos y Cynnig Cymraeg

Y [Cynnig Cymraeg](#) yw cydnabyddiaeth swyddogol y Comisiynydd gaiff ei rhoi i sefydliadau sector breifat a thrydydd sector ac elusennau sydd wedi cydweithio â swyddogion y Comisiynydd i gynllunio darpariaeth Gymraeg.

Ym mis Mai eleni cafwyd wythnos arbennig i ddathlu'r rheiny sydd wedi sicrhau cymeradwyaeth ac annog eraill i fod yn rhan o'r cynllun. Ymystg y rhai diweddaraf sydd wedi ymrwymo i'r Cynnig Cymraeg y mae'r archfarchnad Aldi, Undeb Myfyrwyr Cymraeg Caerdydd a Chyngor Celfyddydau Cymru.

I gyd-fynd â'r wythnos rhyddhawyd [podlediad](#) lle bu Mathew Thomas, Pennaeth Tîm Hybu Comisiynydd y Gymraeg, yn sgwrsio gyda Hanna Hopwood am waith y tîm ac yn benodol am y Cynnig Cymraeg. Yn ymuno â nhw mae Harri Jones o gymdeithas adeiladu'r Principality.

Os hoffech drafod y Cynnig Cymraeg ymhellach cysylltwch am sgwrs.

## Cynnig Cymraeg week

The [Cynnig Cymraeg](#) (Welsh Offer) is the official recognition by the Welsh Language Commissioner which is awarded to third and private sector organisations and charities who have worked with the Commissioner's Office to plan and develop their Welsh language provision.

A week was held in May to celebrate those who have received approval, and to encourage others to get involved. Among the latest organisations committed to the Cynnig Cymraeg are supermarket Aldi, Cardiff Welsh Students' Union and the Arts Council of Wales.

To coincide with the week, a [podcast](#) was released where Mathew Thomas, Head of the Welsh Language Commissioner's Hybu Team, had a conversation with Hanna Hopwood about the team's work and specifically about the Cynnig Cymraeg. They were joined by Harri Jones of the Principality Building Society.

If you would like to discuss the Cynnig Cymraeg please get in touch.

# Hyrwyddo'r Gymraeg yn effeithiol drwy reoleiddio

Cofiwch am ein digwyddiad ddydd Llun, 5 Awst am 11 o'r gloch ym Mhabell y Cymdeithasau ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd.

Bydd Osian Llywelyn, Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg, yn cyflwyno dull cyd-reoleiddio'r Comisiynydd. Bydd yn amlinellu'r weledigaeth o weithredu yn fwy effeithiol drwy ganolbwntio ar ddeilliannau yn hytrach na phrosesau er mwyn cynyddu defnydd.

## Promoting Welsh effectively through regulation


Don't forget our event on Monday, 5 August at 11am in the Societies Tent at the National Eisteddfod in Pontypridd.

Osian Llywelyn, Deputy Welsh Language Commissioner, will present the Commissioner's co-regulatory approach, while outlining the vision of operating more effectively by focusing on outcomes rather than processes to increase use.

Am fwy o wybodaeth am ein gwaith cofiwch ymweld â'n gwefan [comisiynyddygymraeg.cymru](http://comisiynyddygymraeg.cymru) neu dilynwch ni ar Twitter, Facebook ac Instagram ac os am anfon neges atom y cyfeiriad ebost yw [cwfathrebu@cyg-wlc.cymru](mailto:cwfathrebu@cyg-wlc.cymru)

O dan gadeiryddiaeth Betsan Powys bydd trafodaeth banel yn dilyn yn cynnwys Comisiynydd y Gymraeg, Efa Gruffudd Jones, a chynrychiolwyr sefydliadau cyhoeddus.

Croeso cynnes i bawb



Chaired by Betsan Powys a panel discussion will follow involving the Welsh Language Commissioner, Efa Gruffudd Jones, and representatives from public organisations.

All are welcome to join us.

For more information about our work please visit our website: [welshlanguagecommissioner.wales](http://welshlanguagecommissioner.wales) or follow us on Twitter, Facebook, Instagram and LinkedIn and if you want to get in touch e-mail us on: [cwfathrebu@cyg-wlc.wales](mailto:cwfathrebu@cyg-wlc.wales)

